

Y Ganolfan Dysgu
Cymraeg Genedlaethol -
National Centre for
Learning Welsh



Newyddion Dysgu Cymraeg Learn Welsh Latest

Haf
Summer 2018



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



CYMRÆG

Dysgu
Learn

Adroddiad Blynyddol Annual Report

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi cyhoeddi [Adroddiad Blynyddol](#) ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017-2018. Mae wedi bod yn flwyddyn brysur i'r Ganolfan, gyda phrosiectau arloesol megis Cymraeg Gwaith, y Clwb Cwtsh a'r cynllun paru, Siarad, yn creu cyfleoedd newydd i bobl ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

The National Centre for Learning Welsh has published its [Annual Report](#) for the academic year 2017-2018. It's been a busy year for the Centre, with ground-breaking projects such as Work Welsh, Clwb Cwtsh and Siarad creating new opportunities for people to learn and use their Welsh.



Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd Cardiff National Eisteddfod

Dewch i'n gweld ni yn [Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd](#) (3-11 Awst) yng nghanolfan y dysgwyr, Shw'mae Caerdydd, yn adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd. Bydd croeso cynnes i chi, ynghyd â gwybodaeth am gyrsiau Cymraeg a lluo o weithgareddau hwyliog, gan gynnwys cystadlaethau, bandiau byw a siaradwyr gwadd.

Come and visit us at the [National Eisteddfod in Cardiff](#) (3-11 August) at the Welsh learners' hub, Shw'mae Caerdydd, based at the Pierhead building, Cardiff Bay. A warm welcome awaits you, as well as plenty of information about Welsh courses and a range of activities, including competitions, live bands and guest speakers.

Cyrsiau newydd

New courses

Am y tro cyntaf erioed, bydd cyrsiau cenedlaethol, ar lefelau Mynediad (dechreuwr) ac Uwch (dysgwyr profiadol), yn cael eu cyflwyno i'r sector Dysgu Cymraeg o fis Medi ymlaen. Mae'r cyrsiau newydd hyn, sy'n seiliedig ar gwricwlwm cenedlaethol newydd y sector, a luniwyd gan y Ganolfan, wedi'u peilota yn ystod y flwyddyn. Bydd [adnoddau](#) digidol niferus ar gael yn rhad ac am ddim ar Safle Rhyngweithiol y Ganolfan i ategu at y dysgu.

For the first time ever, national courses, at Entry/Mynediad level (beginners) and Advanced/Uwch level (experienced learners), will be introduced across the Learn Welsh sector from September onwards. These new courses, which are based on the sector's new national curriculum, devised by the Centre, have been piloted during the year. Numerous online [resources](#) will also be available free of charge on the Centre's Interactive Site to support the learning.



Ymgyrch recriwtio

Recruitment campaign

Dros yr haf bydd y Ganolfan yn cynnal ymgyrch recriwtio i ddenu dysgwyr at gyrсияu newydd ym mis Medi. Os dych chi eisiau cryfhau eich sgiliau Cymraeg neu os dych chi'n nabod unrhyw un sy eisiau dechrau dysgu, chwiliwch am gwrs ar dysgucymraeg.cymru Gallwch gofrestru a thalu am gwrs ar-lein.

Over the summer the Centre will be running a recruitment campaign to encourage learners to register on new courses starting in September. If you'd like to learn or improve your Welsh, you can find a course near you at learnwelsh.cymru You can register and pay online for your course.

"I'm learning so I can speak Welsh with my team mates."

"Dw i'n dysgu Cymraeg i gael hwyl."

To find a course near you go to learnwelsh.cymru
Cei fwy o wybodaeth ar dysgucymraeg.cymru



"I'm learning Welsh to support my child to be bilingual."

"Dw i eisiau helpu fy mhentyn i siarad Cymraeg."


To find a course near you go to learnwelsh.cymru
Cei fwy o wybodaeth ar dysgucymraeg.cymru



"I'm learning so I can speak Welsh with my friends."

"Dw i'n hoffi siarad Cymraeg gyda ffrindiau."

To find a course near you go to learnwelsh.cymru
Cei fwy o wybodaeth ar dysgucymraeg.cymru



"I want to be able to use Welsh at work."

"Dw i eisiau defnyddio Cymraeg yn y gwaith."

To find a course near you go to learnwelsh.cymru
Cei fwy o wybodaeth ar dysgucymraeg.cymru

